Atodiad 3

Datganiad Polisi ar Recriwtio Cyn-droseddwyr

Mae Prifysgol Bangor yn cydymffurfio'n llwyr â Chod Ymarfer y DBS. Rydym yn ymgymryd i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn ymgeiswyr oherwydd euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddau neu achosion troseddol sy'n dal i fynd rhagddynt. Rydym wedi ymrwymo i drin y staff, y darpar staff a defnyddwyr ein gwasanaethau'n deg, ni waeth beth fo'u hil, eu rhyw, eu crefydd, eu cyfeiriadedd rhywiol, y cyfrifoldebau sydd ganddynt dros ddibynyddion, eu hoedran, eu hanabledd corfforol/meddyliol neu'u cefndir troseddol.

Rydym yn recriwtio unigolion sy'n meddu ar y cymysgedd priodol o dalent, sgiliau a photensial ac rydym yn croesawu ceisiadau gan amrywiaeth helaeth o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai sydd â chofnodion troseddol. Dewiswn ymgeiswyr i'w cyfweld yn ôl eu sgiliau, eu cymwysterau a'u profiad. Ni fydd cofnod troseddol o reidrwydd yn ddigon i wahardd rhywun rhag gweithio gyda ni. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y sefyllfa ac amgylchiadau eich troseddau.

Dim ond ar ôl asesiad trylwyr yn ôl y meini prawf cymhwyster sydd wedi eu pennu gan ddeddfwriaeth y gofynnwn am wiriad y DBS. Os yw cwblhau gwiriad y DBS yn amod o gynnig cyflogaeth, bydd yr hysbyseb swydd a'r Disgrifiad Swydd yn nodi'r gofyniad hwnnw.

Os oes angen gwiriad DBS, mae'r swydd yn eithriad i Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Rydym yn annog ymgeiswyr sy'n gwneud ceisiadau am swyddi o'r fath i roi manylion eu cofnod troseddol, gan gynnwys unrhyw euogfarnau sydd wedi darfod neu sydd heb ddarfod nad ydynt yn cael eu diogelu o dan y gyfraith, yn gynnar yn y broses ymgeisio. Dylid anfon yr wybodaeth honno mewn amlen ar wahân a chyfrinachol at Gyfarwyddwr yr Adnoddau Dynol a rhoddir sicrwydd na fydd neb yn gweld yr wybodaeth honno heblaw am y rhai sydd angen ei gweld fel rhan o'r broses recriwtio. Mae manylion llawn yr euogfarnau hynny sy'n cael eu diogelu ar wefan y DBS.

Cawn drafodaeth agored a chytbwys gyda chi ynglŷn ag unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddau neu achosion troseddol sy'n dal i fynd rhagddynt a allai fod yn berthnasol i'r sefyllfa. Pe na baech chi'n datgelu rhyw wybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd fe allai hynny arwain at dynnu'r cynnig o gyflogaeth yn ôl.

Os ydych chi wedi datgelu inni eich bod wedi cyflawni trosedd, neu os bydd gwiriad y DBS yn datgelu hynny, byddwn yn cynnal asesiad gwrthrychol o effaith hynny ar unrhyw gynnig o gyflogaeth a wnaed i chi. Byddwn yn trafod canlyniad yr asesiad hwnnw gyda chi.